| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Chwefror 2025** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Cyng. Barry Mellor: Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Tony Ward: Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi / Paul Jackson: Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** |
| **Teitl** | **Adolygiad o'r gwasanaeth ailgylchu a swyddogaethau casglu gwastraff cysylltiedig** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn dilyn dyrannu adnoddau ychwanegol gan y Cabinet ar 1 Hydref 2024. Mae hefyd yn ymwneud â'r broses ar gyfer penderfynu a ddylai eiddo gael gwasanaeth casglu gwastraff "Pen Lôn".

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I alluogi Aelodau i gyflawni eu swyddogaeth graffu trwy edrych ar y cynnydd a wnaed hyd yma wrth gyflwyno'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu yn dilyn dyrannu adnoddau ychwanegol gan y Cabinet ar 1 Hydref 2024. Hefyd, yn dilyn cais i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, mae'r adroddiad yn anelu i alluogi Aelodau i graffu'r broses ar gyfer penderfynu a ddylai eiddo gael gwasanaeth casglu gwastraff "Pen Lôn".

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y pwyllgor yn ystyried a oes sicrwydd bod cynnydd digonol wedi ei wneud o ran gweithredu'r camau ychwanegol a gynlluniwyd a alluogwyd gan benderfyniad y

Cabinet ar 1 Hydref 2024, a bod penderfyniad y Cabinet yn golygu bod newid y gwasanaeth yn cyflawni'r nodau angenrheidiol.

3.2. Bod y pwyllgor yn rhoi adborth ar y broses ar gyfer penderfynu a ddylai eiddo gael gwasanaeth casglu gwastraff “Pen Lôn”.

3.3. Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac argymell unrhyw gamau gweithredu neu welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth gwastraff eu hystyried.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 1 Hydref 2024, bu i'r Cabinet gymeradwyo £1.299m ychwanegol mewn gwariant cyfalaf o fewn y Gwasanaeth Gwastraff er mwyn caffael cerbydau ailgylchu ychwanegol, wedi'i ariannu drwy fenthyca darbodus.

4.2. Yn yr un cyfarfod, bu i'r Cabinet hefyd gytuno i £1.067m ychwanegol o gostau refeniw i sicrhau y gall y newid gwasanaeth ddarparu fel y cynlluniwyd ar sylfaen gynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys cost refeniw benthyca darbodus i brynu'r cerbydau ychwanegol.

4.3. Mae cymeradwyo gwariant cyfalaf pellach wedi galluogi caffael 8 cerbyd ychwanegol i gefnogi'r rowndiau ailgylchu diwygiedig. Mae'r rhain yn gymysgedd o feintiau a mathau o danwydd yn unol â gofynion gweithredol ac amcanion corfforaethol. Prynwyd y cerbydau ac rydym nawr yn aros iddynt gael eu dosbarthu gan y cyflenwr. Yn y cyfamser rydym dal i ddefnyddio cerbydau wedi'u llogi a ariennir gan ddyraniad refeniw y gwasanaeth. Byddwn yn peidio â'u llogi cyn gynted ag y bo modd. Disgwylir y 4 cerbyd ailgylchu disel newydd i gyrraedd yn fuan. Disgwylir y cerbydau llai a ddefnyddir gan un unigolyn (SPOV) a cherbydau trydan yn Chwefror a Mai.

4.4. Mae'r dyrniad refeniw ychwanegol wedi golygu recriwtio 8 gyrrwr ychwanegol a 11 llwythwr ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth gwastraff. Mae'r swyddi hyn wedi eu llenwi'n llwyddiannus, sydd wedi galluogi'r cyflawni'r rowndiau ailgylchu diwygiedig a ddaeth yn weithredol ar 4 Tachwedd.

4.5. Gwnaed newidiadau i'r strwythur swyddfa gefn i ganiatáu ar gyfer cymorth gweinyddol a rheoli llawn ar gyfer y swyddogaethau rheng flaen. Mae hyn wedi golygu cyflwyno dau Arweinydd Tîm Wrth Gefn i gefnogi i reoli'r prosesau casglu o ddydd i ddydd pan fo angen. Mae swyddi allweddol megis Rheolwr Gweithrediadau Gwastraff ac Uwch Arweinydd Tîm a ddaeth yn wag yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl y newid gwasanaeth

bellach wedi eu llenwi. Mae swyddi Swyddogion Technegol wedi eu llenwi yn lle staff sydd wedi ymddeol neu wedi mynd ar gyfnod mamolaeth. Mae'r cyfrifoldebau swydd wedi eu haddasu i sicrhau dosbarthu llwyth gwaith mwy cynaliadwy ac i ymdrin ag unrhyw bwyntiau sengl o fethiant o ran dyraniadau tasg.

4.6. Mae problemau TGCh wedi bod yn thema gyffredin ers ei gyflwyno ym Mehefin 2024, oherwydd gwallau a phroblemau system na chawsant eu canfod cyn 3 Mehefin. Mae cydweithwyr TGCh mewnol wedi ymdrin â rhain ar y cyd â'n contractwyr TGCh ac ymddengys eu bod wedi eu datrys i raddau, gan arwain at wasanaeth mwy syml ac effeithiol. Roedd y materion hyn yn cynnwys problemau meddalwedd swyddfa gefn yn ogystal â phroblemau gyda'r dechnoleg yn y Cab yn y cerbyd.

4.7. Mae nifer y galwadau i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ac adroddiadau trwy ein system C360 wedi gostwng yn sylweddol ers cyflwyno'r rowndiau casglu diwygiedig ar 4 Tachwedd. Gwnaed 2195 o alwadau yn ymwneud â gwastraff i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid yn Rhagfyr 2024, sy'n debyg iawn i'r niferoedd ym Mawrth 2024 (1861) ac Ebrill 2024 (2328) cyn i alwadau ddechrau cynyddu cyn cyflwyno'r gwasanaeth newydd. Bu i'r ffigyrau galwadau misol gyrraedd uchafbwynt o 13,080 ym Mehefin 2024. Mae'r ffigyrau diweddaraf (ar gyfer Rhagfyr 2024), sy'n gyson â'r ffigyrau ar gyfer Mawrth ac Ebrill 2024, yn awgrymu bod y gwasanaeth yn gweithredu fel '"Busnes fel Arfer".

4.8. Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr nawr yn cael gwasanaeth rheolaidd a dibynadwy yn unol â beth fyddai'r gwasanaeth yn ei ystyried i fod yn weithgarwch busnes fel arfer. Mae'r gwasanaeth gwastraff bob amser wedi cael, a byddant bob amser yn cael, casgliadau a gollwyd. Mae'n afrealistig peidio â disgwyl unrhyw gasgliadau a gollwyd oherwydd nifer y ffactorau amrywiol a allai effeithio ar weithrediadau casglu. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth bellach yn credu bod nifer ac amlder casgliadau a gollwyd, er eu bod ychydig yn uwch na chyn Mehefin 2024, bellach yn cyrraedd lefelau sy'n unol â gweithrediadau arferol. Mae casgliadau a gollwyd yn rheolaidd bellach yn achosion ynysig a, ble mae angen, mae camau a gweithgareddau penodol i ddatrys y problemau hyn yn lleol. Mae Atodiad 1 yn rhoi dadansoddiad yn ôl gwasanaeth o'r sefyllfa lefel gwasanaeth cyfredol.

4.9. Yn ystod y gwaith ail-ddylunio llwybrau casglu, canfuwyd bod angen i 36 eiddo symud i Gasgliadau Pen Lôn. Mae hon yn broses ble rydym yn gofyn i breswylwyr gyflwyno eu gwastraff mewn lleoliad a bennir gan y gwasanaeth yn unol â gofynion gweithredol

a'n hawdurdod cyfreithiol i wneud hynny o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (1990) Adran 46. Cafodd yr eiddo hyn eu hasesu yn unol â phrotocolau a gweithdrefnau priodol a chyhoeddwyd llythyrau yn hysbysu preswylwyr ynglŷn â'r newid. Anaml iawn y mae hwn yn gais poblogaidd gyda phreswylwyr, ond mae'r mwyafrif o'r ceisiadau hyn wedi eu derbyn heb gwyno. Fodd bynnag, rydym wedi ein herio gan rai o'r preswylwyr hyn, a rhaid i ni gydnabod bod geiriad ein polisi cyfredol ychydig yn aneglur, yn arbennig wrth gyfeirio at ffyrdd wedi'u mabwysiadu a rhai sydd heb eu mabwysiadu, nid yw hyn wedi bod o gymorth gyda'r trafodaethau hynny. Mae'r gwasanaeth wrthi'n adolygu'r geiriad hwn i'w wneud yn gliriach.

4.10. Mae rhai Aelodau wedi bod yn feirniadol o'r ffaith na fu i'r gwasanaeth eu rhybuddio ynglŷn â'r newidiadau Pen Lôn hyn cyn cyhoeddi'r llythyrau, a deallir y safbwynt hwnnw. Fodd bynnag, teimlai'r gwasanaeth fod y rhain yn benderfyniadau gweithredol iawn a, oherwydd ei fod yn effeithio ar gyn lleied o eiddo yn y Sir, nad oedd angen cyfathrebu eang gydag Aelodau. Ar ôl dweud hynny, cafodd y ffaith fod yr adolygiadau hyn yn cael eu cynnal ei hamlygu mewn nifer o sesiynau briffio Cynghorwyr. Wrth edrych yn ôl, ac yn dilyn adborth, cydnabyddir y byddai cyfathrebu ynglŷn â'r mater hwn wedi gallu cael ei drin yn wahanol. Mae hyn yn wers i'r gwasanaeth, wrth symud ymlaen.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae gweithredu'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu newydd, a gwella cyfraddau ailgylchu, yn addewidion penodol o fewn Cynllun Corfforaethol 2022-27.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gynigion yn yr adroddiad y rhagwelir bydd angen buddsoddiad pellach.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Ni ystyrir bod angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad oes angen unrhyw benderfyniad.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae’r adroddiad hwn i alluogi’r Pwyllgor Craffu i adolygu gweithredu penderfyniad y Cabinet ar 1 Hydref 2024. Cynllunnir Adolygiad Craffu o gynllunio a gweithredu’r newid gwasanaeth hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodir yn yr adroddiad ym mharagraffau 4.1 a 4.2 roedd angen adnoddau ychwanegol i sicrhau newid cynaliadwy yn y modd y darperir gwasanaethau. Mae'r cyllid refeniw ychwanegol wedi'i gynnwys yng nghynigion y gyllideb ar gyfer 2025/26.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg y bydd unrhyw faterion gweithredol sy’n deillio o faterion y tu hwnt i’n rheolaeth (er enghraifft, y tywydd eithafol yn ddiweddar) yn golygu bod y cyhoedd yn colli ffydd yn y gwasanaeth eto. Gellir ond rheoli hyn trwy gyfathrebu cyhoeddus da a thrwy sicrhau bod gennym yr adnoddau i gael adferiad sydyn o ddigwyddiadau o’r fath.

10.2. Mae risg bod y canolbwynt ar faterion casglu gweithredol ers Mehefin 2024 wedi golygu llai o ganolbwynt ar addysg a newid ymddygiad. Nawr mae angen i ni gynyddu’r canolbwynt ar y gweithgareddau hyn ac i weithio gyda phreswylwyr ynglŷn â’u harferion ailgylchu i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella ansawdd cyfredol y deunydd ailgylchu a gesglir a ellir ei werthu i’r farchnad.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Caiff pwerau’r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â’r mater hwn eu nodi yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000, ac Adrannau 7.1 i 7.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.